



Opsiynau ar gyfer cynghorau er mwyn cefnogi darparwyr hamdden a diwylliant yn ystod COVID-19

Canllawiau

Sylwer: Mae'r canllawiau hyn yn gywir ar 5 Mehefin 2020. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu haddasu o'r [canllawiau](#) gwreiddiol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol mewn cydweithrediad ag ukactive a Community Leisure UK.

Pwrpas

Cyflwyniad

Ar 16 Mawrth 2020, gofynnodd y Prif Weinidog i bobl stopio mynd allan i lefydd cyhoeddus, gan gynnwys eu lleoliadau diwylliannol lleol, fel theatrau. Ar 20 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bod campfeydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, theatrau a neuaddau cyngerdd, amgueddfeydd ac orielau, a chanolfannau cymunedol (ynghyd â thafarndai, clybiau, bwytai a chaffis) yn cau dros dro ar draws y pedwar gwlad, fel rhan o'r ymateb i COVID-19 i stopio lledaeniad yr haint. Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru bod Gweinidogion Cymru yn ymarfer eu pwerau o dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1984 i gau'r cyfleusterau hyn.

Mae'r cyfleusterau hamdden a diwylliant hyn yn darparu gwasanaethau iechyd, hamdden a lles hanfodol i gymunedau lleol a byddent yn wasanaethau allweddol i'r cymunedau hynny ar ôl y pandemig COVID-19. Er bod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi ar 8 Mai y gall lyfrgelloedd ddechrau meddwl am ailagor yn ddiogel, mae mwyafrif y gwasanaethau yn aros ar gau tan o leiaf mis Mehefin, ac unwaith y byddent yn cael caniatâd i ailagor, byddent yn gwneud hynny gyda gwasanaeth cyfyngedig iawn. Ni fydd mwyafrif y cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon yn cael ailagor mewn unrhyw ffurf cyfyngedig tan o leiaf cam oren y system goleuadau traffig Llywodraeth Cymru i ddod allan o'r cyfyngiadau ar symud. Mae darparwyr hamdden a diwylliant, sy'n ymddiriedolaethau elusennol neu'n weithredwyr preifat, erbyn hyn mewn argyfwng o ganlyniad i golli incwm ac ychydig iawn o arian wrth gefn. Hyd yn oed pan fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu iddynt ailagor, bydd y sefyllfa yn parhau am amser o ganlyniad i ddefnydd cyfyngedig o fannau sydd wedi ailagor a chanslo gwasanaethau lle nad yw cadw pellter cymdeithasol yn bosibl, glanhau dwys a chostau dechrau eto, gan gynnwys ailhyfforddi staff.

Nod y nodyn cyngor hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorau ar effaith y pandemig COVID-19 ar ddarparwyr hamdden a diwylliant sy'n gweithredu gwasanaethau a chyfleusterau sy'n eiddo ac yn cael eu darparu ar ran cynghorau. Mae'n cynnwys opsiynau, yn ogystal ag esiamplau o sut mae cynghorau yn darparu cymorth i ddarparwyr a sicrhau bod cyfleusterau mewn sefyllfa i ailagor pan gaiff y mesurau cadw pellter cymdeithasol eu llacio.

Ar hyn o bryd mae darparwyr hamdden a diwylliant wedi cael eu hanwybyddu ym mwyafrif y pecynnau cymorth sydd wedi cael eu cyhoeddi. Ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant sydd fwyaf mewn perygl gan mai elusennau, cymdeithasau neu gwmnïau buddiannau cymunedol ydynt (gyda chlo asedau lles y cyhoedd) ac felly nid ydynt yn dosbarthu elw. Ar hyn o bryd, mae darparwyr hamdden a diwylliant wedi eu heithrio rhag mwyafrif y cyllid cymorth brys COVID-19, oherwydd:

- Nid yw'r [Nodiadau Polisi Caffael 02/20](#)¹ (PPN 02/20) ar ryddhad cyflenwyr yn cyfrif ar gyfer trefniadau incwm rhwng cynghorau a darparwyr
- nid ydynt yn gymwys ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd Cymru fel dull i ddarparu 60% neu gollod incwm, sydd heb gael ei ddylunio i ymateb i sefyllfaoedd ariannol ymddiriedolaethau
- nid ydynt yn gallu diogelu benthyciad arian, un ai drwy gynlluniau a gefnogir gan y llywodraeth nac yn fasnachol oherwydd bod hyfywedd yn cael ei asesu a'i feirniadu ar gofnodion ariannol proffidiol hanesyddol yn hytrach nac amcanestyniad ariannol y dyfodol, elw gweithredu a dan gontract tynn, ac ar gyfer ymddiriedolaethau, ail-fuddsoddi arian dros ben i'r model cymunedol
- mae gan y mwyafrif gwerth ardrethol uwchben £51 000, felly nid ydynt yn gymwys i dderbyn grantiau manwerthu, lletygarwch a hamdden
- nid ydynt yn gymwys ar gyfer Cronfa Cadernid y Trydydd Sector na'r Gronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol, gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn 'fach' nac yn 'wasanaethau'r rheng flaen'
- gofynnwyd i'r gwasanaethau gau ac mae rhai yn dehongli hyn fel digwyddiad 'newid mewn cyfraith' gan lywodraeth ganolog a all olygu newid mewn goblygiadau dan gontract

Mae'r nodyn hwn yn canolbwyntio ar gyngor sy'n gymwys ar gyfer ymddiriedolaethau a gweithredwyr preifat ar draws Cymru.

Cefndir

Pam fod gwasanaethau hamdden a diwylliannol a'u darparwyr yn bwysig?

Mae darparwyr hamdden a diwylliant yn gweithredu ystod o wasanaethau a chyfleusterau ar ran cynghorau. Gallent fod yn weithredwyr preifat neu ymddiriedolaethau (elusennau cofrestredig, cymdeithasau neu gwmnïau buddiannau cymunedol). Mae nifer o'r safleoedd maent yn eu gweithredu yn ganolfannau hamdden, pyllau nofio a pharciau, ond mewn rhai ardaloedd, maent hefyd yn rhedeg llyfrgelloedd, theatrau, amgueddfeydd, caeau, cyrsiau golff, canolfannau ia, traethau ac adeiladau treftadaeth.

Mae darparwyr hamdden a diwylliant yn cyfrannu i ddarparu cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol o fewn y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gwasanaethau maent yn eu darparu yn chwarae rhan bwysig i sicrhau lles meddyliol a chorfforol a chysylltiadau cymdeithasol cymunedau lleol². Mae ymchwil gan Chwaraeon Cymru yn dangos fod gan chwaraeon yng Nghymru enillion cymdeithasol o £2.88 ar gyfer bob punt sy'n cael ei fuddsoddi, gan gynnwys arbedion sylweddol i'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol³. Mae ymgysylltu â gweithgareddau hamdden a diwylliannol yn cyfrannu'n gryf tuag at les meddylion ac yn galluogi pobl i fod yn actif a chysylltu

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/procurement-policy-note-0220-supplier-relief-due-to-covid-19>

² <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/arts-and-culture-vision-statement-light-springs-through-the-dark.pdf>

³ <https://wsa.wales/download/social-return-on-investment-of-sport-in-wales-2016-17/>

gydag eraill. Mae chwaraeon hefyd yn gyfrannwr economaidd pwysig, gan fod cynnydd o 14% mewn cyflogaeth yn ymwneud â chwaraeon Cymru ers 2010, cynnydd o 14% mewn gwariant ar chwaraeon a chynnydd o 10% mewn gwerth ychwanegol gros mewn perthynas â chwaraeon⁴.

Er bod adeiladau cyhoeddus wedi cau dros dro yn ystod yr argyfwng coronafeirws, mae rhai cyfleusterau hamdden a diwylliant wedi cael defnydd newydd er mwyn cefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae rhai darparwyr wedi dechrau darparu fideos ymarfer corff ar-lein, gweithgareddau i blant ac oedolion, a gwybodaeth gymunedol ar-lein. Bydd y gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr hamdden a diwylliant yn bwysicach fyth wrth i ni symud tuag at ystyried adfer a chefnogi cymunedau i ddychwelyd i'w cyfleusterau hamdden a diwylliannol, a chefnogi eu lles meddyliol.

Os na ellir cynnal y sector hamdden a diwylliant drwy'r argyfwng hwn, bydd ailagor darpariaeth hamdden a diwylliant cyhoeddus yn cael ei effeithio'n sylweddol, bydd gwasanaethau llyfrgell statudol mewn perygl, ni fydd cyfleusterau a lleoliadau yn gallu agor ac ni fydd clybiau a sefydliadau gwirfoddol yn gallu aildechrau gweithgareddau ar gyfer cymunedau. Gall hyn arwain at gostau ychwanegol i bwrs y wlad drwy ail-gaffael, symud staff i sefydliad arall, neu sefydlu mecanweithiau darparu newydd tra bo cyfleusterau yn parhau ar gau am gyfnodau hirach. Bydd effaith hefyd ar fuddion cymdeithasol ac iechyd i gymunedau ar amser pan fydd eu hangen fwyaf.

Beth yw nodweddion gweithredwyr hamdden a diwylliant?

Mae'r model darparu ar gyfer gweithredwyr yn amrywio, ond mae'r prif nodweddion fel a ganlyn:

- Oherwydd gofynion dan gontract i fuddsoddi elw yn ôl i wasanaethau'r cyngor, mae'r elw yn isel iawn (o ran hamdden, fel arfer rhwng 1 y cant – 5 y cant o incwm mewn perthynas â chontractau).
- Maent yn dibynnu'n fawr ar incwm gan gwsmeriaid a/neu ffioedd rheoli er mwyn gweithredu.
- Mae'r cronfeydd wrth gefn yn isel o ganlyniad i'r angen i ailfuddsoddi i gyfleusterau a chymunedau.
- Mae ffioedd rheoli sy'n cael eu talu i a gan weithredwyr yn ffigwr cytbwys rhwng incwm a gwariant. Felly heb unrhyw incwm, mae bwllch ariannol sylweddol yn bodoli.
- Mae gofyniad cymhorthdal net parhaus hyd yn oed pan mae cyfleusterau ar gau a chamau lliniaru yn eu lle, gan fod cyfartaledd costau misol o ran cyfleustodau, staff nad ydynt ar ffyrlo, cyfraniadau pensiynau, benthyciadau, ad-daliadau a ffioedd sefydlog ac ati tua £168,000 i bob darparwr bob mis.
- Ni all weithredwyr gael mynediad at arian o faterion ecwiti na modelau ariannol eraill sydd ar gael i sefydliadau masnachol.

⁴ <https://www.chwaraeon.cymru/canolfan-cyfryngau/newyddion-erthyglau-ac-yngyrchoedd/adroddiad-stadiwm-principality-yn-helpu-chwaraeon-i-gael-effaith-economaidd-enfawr-ar-gymru/>

- Mae cynghorau yn elwa o'r model ymddiriedolaeth a gweithredwr preifat sy'n golygu gostyngiadau yn y gost o redeg cyfleusterau.

Yn ogystal â'r uchod, mae ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yn wahanol i nifer o wasanaethau eraill a gyflawnir gan gynghorau, oherwydd:

- maent yn elusennau cofrestredig, cymdeithasau neu gwmnïau buddiannau cymunedol (gyda chlo asedau budd i'r cyhoedd) ac yn ail-fuddsoddi i mewn i'w cyfleusterau a'u gwasanaethau.
- maent yn annibynnol o unrhyw strwythur grŵp rheolaethol.
- mae cronfeydd wrth gefn yn isel yn unol â'u Polisi cronfeydd wrth gefn yn dilyn canllawiau Comisiwn Elusennau.

Mae hamdden a chwaraeon y cyhoedd yn cael ei reoli gan ymddiriedolaethau mewn 50% o awdurdodau lleol Cymru. Mewn 5 awdurdod lleol yng Nghymru, mae ymddiriedolaethau yn rheoli diwylliant y cyhoedd, llyfrgelloedd a lleoliadau celfyddydau yn bennaf.

Pa heriau maent yn ei wynebu?

Mae ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yn benodol yn wynebu heriau llif arian. Mae ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yng Nghymru yn parhau i wynebu cyfartaledd o bron i £168,000 o gostau misol (ac eithrio'r costau sydd wedi eu hadennill drwy'r Cynllun Cadw Swyddi ac unrhyw ostyngiadau gwariant cytunedig). Mae'r costau hyn yn cynnwys cyfleustodau, cyfraniadau pensiwn sylweddol h.y. mae cyfraniadau cynllun pensiwn llywodraeth leol yn 17-18% (ni ellir ei hadennill o'r Cynllun Cadw Swyddi uwchben y trothwy 3%) a chostau parhaus cynnal a chadw adeiladau. Mae hyn yn digwydd wrth i ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant gollu cyfartaledd o £460,000 o incwm bob mis.

Pe byddai'r cyfyngiadau ar symud yn dod i ben a mesurau cadw pellter cymdeithasol yn aros yn eu lle, a phe byddai cymorth ariannol megis y Cynllun Cadw Swyddi yn dod i ben, byddai traean o ymddiriedolaethau yng Nghymru yn cyrraedd safle "anniogel" o fewn 6 mis; bydd 44% o ymddiriedolaethau yng Nghymru yn cyrraedd y safle hyn o fewn y chwech i naw mis nesaf. Ymhen naw i ddeuddeg mis, bydd 77% o ymddiriedolaethau yng Nghymru mewn sefyllfa "anymarferol" neu "anniogel".

Mae gweithredwyr hamdden a diwylliant yn wynebu heriau pellach wrth geisio cael mynediad at gymorth y Llywodraeth yn ystod y pandemig COVID-19:

- er eu bod yn elwa o'r Cynllun Cadw Swyddi, nid yw'r mwyafrif yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi na grantiau manwerthu, lletygarwch a hamdden
- nid ydynt ychwaith mewn safle i gymryd benthyciad ariannol – oherwydd y perygl – yn ôl natur eu model busnes a'r elw isel, sy'n cael ei ailfuddsoddi i mewn i'r gymuned beth bynnag
- nid yw'n eglur eto os fyddent yn gallu cael mynediad at unrhyw Gronfa Cadernid y Trydydd Sector a'r Gronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol

Mae gweithredwyr preifat hefyd yn wynebu heriau ariannol difrifol o ganlyniad i gollu incwm a chostau uchel sy'n gysylltiedig â rhedeg cyfleuster. Mewn rhai achosion, gallent gymryd benthyciad ariannol, ond mewn achosion eraill bydd eu sefyllfa yn debyg iawn i'r ymddiriedolaethau.

Beth yw'r peryglon os nad yw gweithredwr hamdden a diwylliant bellach yn hyfyw?

Pan na fydd gweithredwr hamdden a/neu ddiwylliant yn rhedeg gwasanaethau ar ran y cyngor bellach yn ariannol hyfyw, mae'r cyngor yn wynebu dewis anodd. Un ai gall ganiatáu i'r gweithredwr fynd yn fethdalwr, gan ddod ag unrhyw gyfleuster sy'n eiddo i'r cyngor yn ôl yn fewnol, fel ffordd o'u cadw ar agor, neu gall ddewis cefnogi'r gweithredwr. Os fydd unrhyw ymddiriedolaeth sy'n rheoli gwasanaethau llyfrgell yn methu, mae'r cyngor mewn perygl o beidio â chyflawni ei wasanaethau statudol. Ymhob achos, mae gwasanaethau hamdden a diwylliant yn cyfrannu'n sylweddol i'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, bydd unrhyw ymyrraeth wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar oblygiadau statudol y cyngor, ac ni fydd gan nifer o gynghorau rheolwyr gwasanaeth hamdden na diwylliant proffesiynol i gallu ailddechrau gwasanaeth neu gyflawni adolygiadau gweithredol.

Bydd unrhyw ddull yn debygol o olygu costau sylweddol i'r cyngor. Bydd y gost o gefnogi ymddiriedolaeth yn amrywio yn ôl sefyllfaoedd lleol penodol a dull y cyngor. Mae dod a chyfleuster yn ôl fel gwasanaeth mewnlol hefyd yn cynnwys ystod o gostau gan gynnwys:

- cynnal a chadw'r cyfleuster
- Symud staff o un sefydliad i'r llall, ac o bosibl, ychwanegu ar gyflogau'r rhai sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd;
- colli incwm tra bo'r cyfleusterau ar gau o dan y cyfyngiadau presennol (a chostau cynyddol yn dilyn codi'r cyfyngiadau gan y bydd angen i gynghorau recriwtio a diogelu arbenigwyr cyn gallu ailagor cyfleusterau. Bydd cynghorau hefyd yn wynebu cyfraddau busnes llawn, lle gall ymddiriedolaethau hawlio rhyddhad elusennol.)
- ail-dendro'r gwasanaethau yn ddiweddarach os yw'n gymwys
- posibilrwydd o orfod newid y cyfleuster yn yr hirdymor gan fod ymchwil diweddar yn dangos fod [bron i ddau draean o ganolfannau hamdden wedi dyddio ac angen buddsoddiad ar frys](https://www.local.gov.uk/nearly-two-thirds-leisure-centres-need-urgent-investment)⁵

Mae cost sylweddol i'r gymuned hefyd, gan y bydd gwasanaethau yn debygol o barhau ar gau tan fydd trefniadau yn eu lle i ailagor, ar adeg pan fydd gan gynghorau nifer o ofynion eraill o ran amser ac arian a bydd rhaid i wasanaethau statudol gymryd blaenoriaeth.

Mae risgiau penodol i flaenoriaethau ehangach sy'n cael eu harwain gan y cyngor a darparu dyletswyddau statudol sy'n dibynnu ar gyfleusterau hamdden a diwylliant.

⁵ <https://www.local.gov.uk/nearly-two-thirds-leisure-centres-need-urgent-investment>

Er nad yw'n statudol, mae cynghorau yn chwarae rhan strategol i benderfynu a gyrru blaenoriaethau economaidd lleol er mwyn cynyddu twf economaidd, creu swyddi a gwneud ardaloedd lleol yn lefydd deniadol i fyw a gweithio. Mae adfywio canol trefi i ddod â chydbwysedd well o ran tai, hamdden, gwasanaethau cyhoeddus a chanolfannau diwylliannol a manwerthu yn un esiampl o'r ffordd mae cynghorau yn gwneud hyn. Felly yn yr hirdymor, bydd absenoldeb isadeiledd hamdden a diwylliant yn Felicael effaith niweidiol ar gynnydd cynghorau o ran blaenoriaethau economaidd lleol a lles.

Beth all fy nghyngor ei wneud i gynorthwyo ein partner hamdden a diwylliant?

Cydnabyddwn y bydd nifer o alwadau ar adnoddau'r cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r rhestr a ddarperir isod i helpu cynghorau i nodi eu hopsiynau i gynorthwyo eu hymddiriedaeth hamdden a/neu ddiwylliant lleol. Ni fydd bob opsiwn yn briodol i bob maes cyngor a bydd yn dibynnu ar gontractau lleol. Fodd bynnag, anogwn i chi weithio gyda'ch darparwr hamdden a diwylliant fel partner, yn hytrach na darparwr dan gontract yn unig, er mwyn canfod beth fydd yn gweithio orau iddyn nhw, ac yn yr hirdymor, y cymunedau, er mwyn cefnogi iechyd cyhoeddus, cenedlaethau'r dyfodol a strategaethau economaidd eich cyngor. Er y bydd y manylion yn wahanol, ein nod yw bod dull sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth yn cael ei fabwysiadu ar draws yr holl gynghorau.

Bydd y camau gweithredu canlynol yn cefnogi dull partneriaeth rhwng y cynghorau a'u darparwyr hamdden a diwylliant:

- Mabwysiadu'r argymhellion a'r dull a argymhellir yn [PPN 02/20](#).
- Cefnogi'r safle cymhorthdal net drwy defnyddio'r dull Llyfr Agored a argymhellir yn y PPN 02/20 presennol ers cau gwasanaethau ar 20 Mawrth i'r dyddiad y bydd 'lefelau incwm a gwasanaeth arferol llawn wedi cael eu cyflawni' er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder. Bydd darparwyr hamdden a diwylliant o dan rwymedigaeth i leihau costau cymaint â phosibl.
- Cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'r gweithredwr er mwyn monitro a rheoli'r ymateb ar y cyd i'r argyfwng.
- Deall bod sefydliadau wedi gorfod rhoi mwyafrif eu staff ar ffyrlo, felly dylai cysoni o dan Llyfr Agored sy'n benodol i'r contract fod yn chwarterol er mwyn lleihau'r effaith ar adnoddau.
- Deall nad yw gweithredwyr hamdden a diwylliant, gan gynnwys ymddiriedolaethau, yn gymwys ar gyfer mwyafrif y cynlluniau cymorth busnes a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, nac ar gyfer cynlluniau Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (ar adeg ysgrifennu).
- Cymryd camau i ddeall costau posibl i'r cyngor mewn cyllidebau presennol ac yn y dyfodol pe na fyddai eu partner hamdden a diwylliant yn gallu parhau.
- Nodi o dan 'Newid mewn Cyfraith darpariaethau' (lle bo'n gymwys) bod y cyngor yn gwbl gyfrifol am holl gostau cau a chefnogi'r camau i fynd yn ôl i weithio'n arferol.
- Cytuno ar gostau cau gyda'r gweithredwr (lle bo'n berthnasol), gan gynnwys diogelwch, gwiriadau ac ati.

Gall gynghorau hefyd ystyried:

- ariannu'r gweithredwr i gyflogi staff o dan eu tâl arferol dan gontract, wrth sicrhau bod y gweithredwr yn gwneud y mwyaf o [Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth](#)⁶
- cytuno ar daliadau i'r gweithredwr er mwyn sicrhau bod sefyllfa llif arian y gweithredwr yn cael ei ddiogelu.

Dylid nodi bod gweithredwyr hamdden a diwylliant yn cefnogi nifer fawr o gynlluniau cadernid cymunedol ar draws y wlad ac mae'r dull cydweithredol hwn yn darparu buddion uniongyrchol i nifer i gynghorau a'u cymunedau. Felly os nad all y gweithredwyr hyn ddychwelyd yn ddiogel, mae hyn yn effeithio ar wasanaethau statudol y cyngor a holl isadeiledd hamdden a diwylliant cyhoeddus ar draws Cymru. Mae parhau y gefnogaeth gymunedol ac isadeiledd yn cael ei annog.

Dulliau o gefnogaeth

Lle bynnag bosibl, cydnabyddwn bod cynghorau yn gwneud eu gorau i gynorthwyo drwy gyflwyno ystod o fesurau brys, gan gynnwys llacio gofynion monitro a chanlyniadau, taliadau ymlaen llaw ar ffioedd rheoli ac mewn rhai achosion, cynnig cymorth ariannol uniongyrchol. Mae esiamplau penodol o gefnogaeth a gynigir gan y cynghorau i ddarparwyr hamdden a diwylliant (ymddiriedolaethau a gweithredwyr preifat) yn cynnwys y canlynol:

- hepgor y swm i'w dalu dan gontract i'r cyngor gan y darparwr bob mis
- cynnig benthyciad heb log neu grant i'w contractwyr hamdden a diwylliant er mwyn talu am y misoedd o gau a consesiwn ar fesurau yn y dyfodol pan fydd caniatâd i ailagor.
- gohirio unrhyw gostau rhentu ar gyfer y safleoedd maent yn gweithredu
- talu cymhorthdal gweithredu am y flwyddyn ymlaen llaw, fel taliad chwarterol
- cynnig i ariannu holl gostau yn ymwneud â staff sydd eu hangen i fynychu'r canolfannau i gyflawni gwiriadau adeilad, er mwyn cydymffurfio â gwiriadau adeiladau a rhwymedigaethau dan gontract
- cynnig i dalu costau rhagweledig o ran cynnal a chadw, cyfleustodau, glanhau, ffioedd ariannol, ffioedd proffesiynol, treth ar werth nad ellir ei adennill a rhan o gostau cyffredinol canolog, yn amodol ar gysoni llyfr agored er mwyn penderfynu y gost gwirioneddol pan fydd y ganolfan yn ailagor.

Gall y cynghorau ystyried taliadau ymlaen llawn fel y nodir yn y PPN 02/20 er mwyn lliniaru'r heriau llif arian sy'n wynebu ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yn benodol.

Crynodeb

⁶ <https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme>

Mae iechyd a lles y genedl ar ein meddwl ni oll ac mae'n glir bod y gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr hamdden a diwylliant yn chwarae rôl hanfodol yn hyn rŵan ac yn y dyfodol. Maent yn cefnogi cynghorau gyda'u dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn hanfodol i isadeiledd hamdden a diwylliant cyhoeddus lleol, sydd yn ei dro, yn cefnogi grwpiau cymunedol eraill.

Er bod y canllawiau PPN 02/20 angen darparu safle generig i gynnwys nifer o wasanaethau, mae angen i ddarpariaeth gwasanaethau'r cyngor dan ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant gael ei asesu yn unol â'r sefyllfaoedd unigryw sydd ei angen i ddarparu contractau a manylion gan y cynghorau. Bydd sefyllfaoedd lleol yn wahanol a'r cynghorau yn y sefyllfa orau i benderfynu eu dulliau eu hunain ar gyfer y gwasanaethau hyn, ond byddwn ni'n cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth rhwng y cyngor a'r darparwr fel y ffordd orau i ddiogelu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gymuned.

Anogwn cynghorau i ystyried goblygiadau hirdymor y cyfnod cythryblus hwn ar y sector diwylliant a hamdden ac ystyried sut allwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau cadernid y cyfleusterau hyn ar gyfer ein trigolion.

Cwestiynau Cyffredin

Isod mae cyfres o gwestiynau cyffredin a ofynnir gan gynghorau am eu darparwyr, a'r bwriad yw cynorthwyo i gefnogi'r drafodaeth rhwng sefydliadau. Mae mwyafrif yr atebion hyn yn seiliedig ar drafodaethau blaenorol rhwng aelodau ukactive a'u cynghorau partner, ond maent wedi cael eu hadolygu a'u haddasu lle bo'n briodol er mwyn gwneud yr ymatebion yn gymwys ar dras holl ddarparwyr hamdden a diwylliant.

A yw cymorth y cyngor yn cyfrif fel cymorth gwladwriaethol?

- Mae contractau yn cael eu caffael drwy Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd mewn cydymffurfiaeth llawn â Rheolau Caffael yr UE a'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (neu'r Rheoliadau Contractau Consesiynau).
- Roedd y contractau hyn, ar yr adeg cawsant eu caffael, yn cynnwys rhwymedigaethau clir ar y cynghorau i wneud taliadau o dan y contract os fydd newid penodol/cymwys mewn cyfraith.
- Mae cynghorau yn cydymffurfio â thelerau'r cytundebau hyn a gafodd eu tendro yn unol â Chyfraith yr UE.
- Ni ellir ystyried cydymffurfio â thelerau'r contract fel 'gwyrdroi cystadleuaeth' ar gyfer dibenion rheolau Cymorth Gwladwriaethol, gan fod yn contract yn agored ar gyfer tendr i unrhyw sefydliad yn yr UE.
- Felly, nid yw unrhyw daliadau a wneir yn cael ei drin fel cymorth gwladwriaethol gan nad ydynt yn bodloni y pedwar prawf i dan reolau cymorth gwladwriaethol.

Pa arbedion gellir eu gwneud mewn perthynas â chostau sy'n gysylltiedig ag atgyweirio, adnewyddu, glanhau, gwastraff a chyfleustodau wrth beidio effeithio ar gynnal a chadw safleoedd a rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth?

- Bydd arbedion yn dibynnu i ba raddau y bydd y cyngor yn dymuno cau safleoedd dros dro. Er enghraifft, bydd darparwyr yn ceisio lleihau costau ynni cymaint â phosibl ond hefyd yn dilyn canllawiau Grŵp Cynghori Trin Dŵr Pwll, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal systemau cylchrediad pwll a safle yn barod ar gyfer ailagor safleoedd. Bydd cau safleoedd yn gyfan gwbl yn golygu mwy o risg y bydd strwythur pwll a safle yn methu, gan olygu y bydd hyn yn broses llawer drytach. Mae'r un peth yn wir ar gyfer lleoliadau diwylliannol a theatrau lle nad ellir diffodd holl gyfleustodau oherwydd gallai hen offer gael eu difrodi os na chânt eu defnyddio am gyfnod hir.

Bydd sefydlogrwydd a hyfywedd gweithredwr aml-safle yn dibynnu ar eu gallu i amrywio eu trefniadau dan gontract yn llwyddiannus gyda'r holl gynghorau amrywiol y maent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Os fydd y cwmni yn dod yn fethdalwyr, a ddylai'r holl gynghorau sydd â chontractau gyda'r cwmni gael eu hysbysu ar unwaith?

- O dan unrhyw amgylchiadau lle mae'r cwmni yn dod yn fethdalwyr, bydd holl bartneriaid cyngor yn cael eu hysbysu ar unwaith. Mae'n bwysig nodi os caiff cau safleoedd ei ystyried fel 'newid mewn cyfraith', mae goblygiadau o ran gofyniad y cyngor i roi cymorth.

A yw ymddiriedolaethau a gweithredwyr preifat yn barod i nodi yr union gymorth maent yn ymgeisio amdano yn erbyn bob contract yn eu portffolio?

- Mae bob sefydliad yn barod i weithio drwy bob contract gan ddefnyddio'r dull Llyfr Agored a argymhellir yn y PPN 02/20 presennol er mwyn sicrhau bod y costau llawn yn cael eu dangos i'r cyngor yn ysbryd dull tryloyw. Bydd gwybodaeth ariannol o gynghorau eraill yn gyfrinachol.

Pam fod y canrannau ar gyfer cyfraniad cymorth canolog yn wahanol rhwng contractau cynghorau gyda'r un darparwr? All y ffigwr hwn gael ei unioni?

- Mae'r cyfraniad yn cael ei ddyrannu i bob contract ar sail pro rata yn seiliedig ar faint y contract mewn perthynas â holl bartneriaid cyngor. Mae hyn yn sicrhau nad yw un cyngor yn talu am gyfran uwch o gostau rhedeg canolog.

Os oes trefniant 'cost a mwy' yn ei le, a yw'r gweithredwr yn rhagweld hyn fel taliad pris penodedig bob mis, neu taliad amrywiol bob mis yn seiliedig ar wariant gwirioneddol?

- Bydd y trefniant 'cost a mwy' yn daliad amrywiol yn seiliedig ar wariant gwirioneddol a chyfraniad cost canolog penodedig. Bydd contractwyr yn ceisio cadw'r gwariant gwirioneddol mor isel â phosibl ond mae nifer o gostau anochel sydd rhai eu talu yn ystod y cyfnod cau. Gall gostau amrywio yn dibynnu ar barhad y cau, e.e. gwastraff stoc ychwanegol mewn achosion o gau am gyfnod estynedig.

Mae hyfforddiant rheolaidd yn ofynnol dan gyfraith (er enghraifft iechyd a diogelwch). Oes posib cael eglurder ar y costau hyfforddiant yn ystod cyfnod cau'r safle?

- Y brif gostau yw ar gyfer Cymorth Cyntaf yn ogystal â Hyfforddiant Cenedlaethol Achub Bywyd Pwll Nofio ac adnewyddu hylendid bwyd sylfaenol cyn ailagor safleoedd. Mae egwyl o ran hyfforddiant statudol wedi cael ei gymeradwyo mewn mwyafrif o achosion yn ystod y cyfyngiadau ar symud. Efallai bod costau eraill yn ddibynnol ar hyd y cyfnod cau, ond ar hyn o bryd dyma'r costau hyfforddi allweddol.
- Mae darparwyr hefyd yn ystyried hyfforddiant ychwanegol i staff ar ôl ailagor er mwyn cydymffurfio â mesurau iechyd a diogelwch newydd. Bydd unrhyw gostau o'r fath yn cael eu rhannu gyda cynghorau drwy'r dull 'llyfr agored' y PPN.

Allwch chi roi gwybod os yw egwyl ar daliadau wedi cael ei archwilio a gostwng o ran holl gostau perthnasol h.y. trwyddedau neu drefniadau llogi offer?

- Mae holl ddarparwyr bellach mewn trafodaethau gyda chyflenwyr o ran gostyngiadau ac egwyl ar daliadau. Bydd unrhyw ostyngiadau a gadarnheir yn cael ei basio drwy'r cyngor fel rhan o gyfrifeg Llyfr agored (ar y trefniant 'cost a mwy' lle bo'n gymwys). Mae nifer o gyflenwyr wedi caniatáu hyblygrwydd, ond mae rhai yn parhau i ddilyn y safle dan gontract.

A yw'n gywir tybio y bydd costau sy'n gysylltiedig â 'chostau gwerthu nwyddau' yn lleihau ymhellach ar ôl mis Ebrill unwaith y ceir gwared â stoc darfodus?

- Ydi, bydd y gost gwirioneddol yn lleihau yn ystod y cyfnod cau a gellir cadarnhau hyn ar ôl bob mis yn ystod y broses cysoni cyfrifon. Mae'n dibynnu ar yr hyn sy'n mynd heibio'r dyddiad ymhob cyfnod.

Diolch i Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru am gefnogi'r nodyn canllawiau hwn.



Diolch i CLIL, Community Leisure UK ac ukactive am eu cefnogaeth i lunio'r nodyn canllawiau gwreiddiol.

